**SACRE SIR Y FFLINT**
**DYDD MERCHER, 10 HYDREF 2018**

Cofnodion cyfarfod SACRE Sir y Fflint Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn Dydd Mercher, 10 Hydref 2018

**YN BRESENNOL:** **Cynghorydd Mrs. D. McIntyre (Cadeirydd)**
Cynghorwyr Chris Bithell a Ian Roberts

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Paul Cunningham and Dave Mackie.

**CYNRYCHIOLWYR YR ALI:**
Claire Homard – Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) (CH)

**ENWEBIADAU CREFYDDOL:**
Roz Williams, Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Esgobaeth Llanelwy (RW) Gareth Wyn Jones (GJ)

**CYNRYCHIOLWYR ATHRAWON:**
Ibad Hussain (IB)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Kim Brookes – Uwch Swyddog Cefnogi Busnes (KB) Clerc;
Alison Butler – Ymgynghorydd Cwricwlwm Dros Dro yr ALI (AB)

## 15. CROESCO A CHYFLWYNIADAU

Yn dilyn cyfnod o fyfyrio ar y dechrau, croesawodd DM y cydweithwyr i'r cyfarfod. Cytunwyd parhau i gynnal y cyfarfod er gwybodaeth gan nad oedd nifer yr aelodau yn gwneud cworwm. Oherwydd bod cylch gorchwyl y pwyllgor wedi dyddio, cynigodd CH y dylid creu drafft diwygiedig yn y cyfarfod nesaf. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i amseriad y cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn cynorthwyo ysgolion â'u costau athrawon llanw a gofyn i Ffederasiynau Penaethiaid enwebu cynrychiolwyr athrawon.

**Cam Gweithredu:**
Cynnig diwygio'r cylch gorchwyl yn y cyfarfod nesaf. Nodi bod y cyfarfod nesaf i ddechrau am 4.00pm yn Ysgol Maes Garmon a rota lleoliadau rhwng y Cyngor ac ysgolion.

## 16. DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL

Dim i'w hadrodd.

## 17. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2018.

Materion yn codi:

Oherwydd bod Phil Lord yn dychwelyd i'w rôl gyda GWE, dywedodd CH mai hi fyddai'n ymgymryd â rôl Ymgynghorydd Statudol y Pwyllgor yn y cyfamser. Yr Ymgynghorydd Gwella Ysgolion fyddai'n cyflawni'r rôl ar ôl i'r Awdurdod benodi un.

Tudalen 3 – CH i fynd ar drywydd unrhyw adroddiadau Estyn sy'n amlygu cydymffurfedd â gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd. Dywedodd RW ei bod yn ceisio eglurhad gan Estyn ynglŷn â'u meini prawf ar gyfer dyfarniadau.

Tudalen 4 – nodwyd bod yr adnoddau lefel A ar gael yn Saesneg a Chymraeg.

Tudalen 5 – CH i weithredu ar ddatrysiadau yn a) a b).

**Cam Gweithredu:**

Tudalen 6 – dywedodd RW y byddai unrhyw gynrychiolaeth cred ehangach ar y pwyllgor o fewn y canllawiau statudol crefyddol.

**18. DRAFFT O ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2017-18**

Nodwyd yr adroddiad hwn er nad oedd nifer o'r aelodau wedi derbyn copïau cyflawn gyda'r hysbysiad cyfarfod.

**Cam Gweithredu:**
CH: adroddiad llawn i'w ddwyn ymlaen yn y cyfarfod nesaf.

**19. DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU**

Cadarnhaodd AB bod adolygiad o adroddiadau archwilio diweddar yn dangos bod ysgolion yn cyfeirio at gredoau ysbrydol, moesegol a moesol disgyblion ac felly byddai CYSAG yn hyderus bod ysgolion yn cyflawni eu gofynion statudol.

**Cam Gweithredu.**
Adroddiad i'w ddwyn ymlaen yn y cyfarfod nesaf.

**20. Y NEWYDDION DIWEDDARAF AM GWRICWLWM CYMRU - DAN ARWEINIAD ALISON BUTLER AR RAN CLAIRE HOMARD**

Yn dilyn cyflwyniad gan AC, ceisiwyd adborth gan unigolion ynglŷn â'r meysydd dysgu Dyniaethau arfaethedig. Anogodd RW y grŵp i drafod a rhoi adborth am themâu allweddol yn ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am ymateb terfynol erbyn 16 Tachwedd. Trafodaeth grŵp am hyfforddi llywodraethwyr ar y cwricwlwm newydd; monitro cydymffurfedd mewn ysgolion.

**21. CAIS GAN LYWODRAETH CYMRU AM GWESTIYNAU AC ADBORTH AR WEITHDY CYSAG**

Wedi'i ohirio

**22.** **CCYSAGC**

Nodwyd nad oedd cofnodion CCYSAGC wedi cael eu cynnwys gyda'r hysbysiad cyfarfod chwaith.

**Cam Gweithredu:**

CH i godi'r mater gyda'r Adran Gwasanaethau Pwyllgorau. Anfonir ymddiheuriadau gan y grŵp ar gyfer cyfarfod 20 Tachwedd

**23.** **CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Dydd Mercher 20 Chwefror 2019 – 4.00pm yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug, i'w gadarnhau

Dydd Mercher 12 Mehefin 2019

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.20 pm)

..................................................

**Cadeirydd**